



**Older People's Commissioner for Wales**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Mr Trevor Purt  
Bwrdd Iechyd Hywel Dda  
Merlins Court  
Winch Lane  
Hwlfordd  
SA61 1SB

Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL  
08442 640670  
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Gorffennaf 2011

Annwyl Mr Purt,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas: adborth a Hysbysiad  
Ysgrifenedig yn gofyn am ragor o wybodaeth erbyn 15 Awst 2011**

Hoffwn ddiolch i chi am ymateb yn brydlon i'm Hadolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru'. Rwy'n gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sydd wedi'u neilltuo i lunio ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad yr Adolygiad. Calondid i mi oedd yr ymatebion addawol a gawsom ac rwy'n teimlo eu bod yn dangos gwir awydd i wella profiad pobl hŷn yn yr ysbyty. Roedd ymateb Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn arbennig o fuddiol o ran Argymhelliad 1 (arweinyddiaeth ar y ward), Argymhelliad 2 (gofal dementia), Argymhelliad 3 (gofal ymataliaeth) ac Argymhelliad 12 (gwybodaeth a sgiliau). Byddwn yn defnyddio'r ymatebion hyn fel enghreifftiau da i bobl eraill.

Pan anfonais gopïau o'r Adroddiad ar yr Adolygiad, gofynnais i Fwrdd Iechyd Hywel Dda ymateb i'r argymhellion, i amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio â nhw. Os byddai'r Bwrdd Iechyd yn penderfynu peidio â chymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Dywedais fy mod yn disgwyl cael ymateb i Argymhelliad 5 ar y cyd â'r awdurdodau lleol yn eich ardal.

Ers i ymateb Bwrdd Iechyd Hywel Dda ddod i law, mae fy nhîm a mi wedi asesu'r ymateb yn drylwyr. Rydyn ni wedi cael cymorth hefyd gan banel o gynghorwyr y mae eu henwau wedi'u rhestru ar ein gwefan. Mae Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 yn datgan bod rhaid i'r wybodaeth a roddir imi gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda fod yn ddigon imi benderfynu a gydymffurfir â'm hargymhellion i neu beidio, neu roi digon o esboniad pam na chydymffurfir ag argymhelliad.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn caniatáu imi anfon Hysbysiad Ysgrifenedig i ofyn am ragor o wybodaeth gan y cyrff hynny sydd heb fy narbwyllo eto y bydd fy argymhellion yn cael eu dilyn. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Hywel Dda yn cydnabod y materion ac rwy'n croesawu hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud i roi sylw i'r materion hyn. Mae llawer o ymatebion da wedi dod i law, ond heb i'r un Bwrdd Iechyd roi digon o wybodaeth i'm sicrhau'n llawn y bydd buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hybu mewn ysbytai yng Nghymru. Felly, yn unol â'r Rheoliadau, mae'r llythyr hwn yn Hysbysiad Ysgrifenedig i Fwrdd Iechyd Hywel Dda i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r argymhellion a amlinellir yn y tabl isod. Byddwch cystal â rhoi'r wybodaeth hon erbyn **dydd Llun 15 Awst am 5pm fan bellaf**.

Mae'n ofynnol imi gadw cofrestr, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnwys manylion yr argymhellion a chanlyniad unrhyw gamau pellach yr ydw i wedi'u cymryd, megis rhoi Hysbysiad Ysgrifenedig i Fwrdd Iechyd penodol. Bydd y gofrestr ar ein gwefan ynghyd â'r ymateb a anfonwyd gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda a'r llythyr hwn. Bydd y gofrestr ar gael ar bapur hefyd os gwneir cais amdano.

Pan fyddaf yn fodlon bod gen i'r cyfan o'r wybodaeth angenrheidiol, bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr argymhellion yn dod yn realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rhan hon o'r broses, mae croeso ichi gysylltu ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu [anna.buchanan@olderpeoplewales.com](mailto:anna.buchanan@olderpeoplewales.com).

Yn gywir,



Ruth Marks  
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

### Yr ymatebion y gofynnir am ragor o wybodaeth yn eu cylch

Yr argymhelliad	Yr adborth a'r wybodaeth y gofynnir amdani
	<b>Ewch yn ôl at Argymhellion yr Adroddiad a thestun llawn yr Adroddiad i gael arweiniad ar eich ymateb</b>
Argymhelliad 4 Preifatrwydd gwybodaeth	Rhowch ragor o wybodaeth i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"><li>• Mynd i'r afael â chyfyngiadau 'pegiau urddas' na fyddan nhw'n atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei chlywed yn ddamweiniol</li></ul>

	<p>wrth erchwyn y gwely</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ein darbwylllo mai cynnal pob sgwrs sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (meddygol ac anfeddygol) yn breifat fydd y dewis diofyn</li> </ul>
<p>Argymhelliad 5</p> <p>Rhyddhau o'r ysbyty</p>	<p>Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• A gafwyd cyfraniad uniongyrchol gan Gyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Ceredigion i'r ymateb. Rydyn ni wedi ysgrifennu at y cynghorau ar wahân.</li> <li>• Ymgorffori staff y gwasanaethau cymdeithasol yn y broses o ryddhau cleifion, drwy gyfrwng timau aml-ddisgyblaeth</li> </ul>
<p>Argymhelliad 8</p> <p>Amgylchedd y ward</p>	<p>Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa gamau a gaiff eu cymryd i ddatblygu'r 'ymagwedd strategol gytûn' a grybwyllir ym mhwynt gweithredu 3 y Bwrdd Iechyd ynghylch Argymhelliad 8, yn enwedig o ran y rhai sydd â cholled synhwyrau neu ddementia.</li> </ul>
<p>Argymhelliad 9</p> <p>Cyfathrebu</p>	<p>Rhowch ragor o wybodaeth i ymdrin â'r canlynol:</p>

- |  |  |
|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Darparu eiriolaeth</li></ul> |
|--|--|